

“A true & exact Terrier, & a perfect survey of the Church & church yard & of the glebes and glebe lands now or late belonging to the Rectory of St. Peter’s Newborough in the county of Anglesey & Diocese of Bangor taken the eleventh day of June 1722 & transcribed here the 28th of June by John Williams curate thereof 1742, as follow:

Imp.<sup>1</sup> The Church of St. Peters, Newborough, is within one & thirty yards long & five yards & a half broad. The churchyard is in all one customary yard & eleven Perches.

The Glebe consisting only of a Barn yard & a small Quillet is as followeth.

The Barn within is seven yards long & five yards & a half broad.

The yard fourteen Perches the barn included.

The Quillet one customary yard & twenty six Perches bounded northwardly by llain yr aur, southwardly by llain coryn y ci, both /143/belonging to Mr. Lloyd, Llanidan, eastwardly by a Quillet of Mr. Wynne of Bodfuan, and westwardly by the street.

All the utensils & appurtenances belonging to the Parish Church of St. Peter’s Newborough are as followeth:

One wooden chest ... locks, where the Church plate and linnen are kept.

A silver cup or Goblet without a cover, a Pewter flagon, and a Pewter Salver.

A comunion table with a purple Plush Carpet, & a fine linnen cloth to cover it in communion days.

A pulpit with a purple Plush pulpit cloth & cushion.

Two Surplices one new the other very, old, a common Prayer Book of the new edition, a large Bible of modern print.

Two Biere, two bells, two wooden trenchers for collecting money for the poor, a Laver, a ladder, a spade & a pickax.

A Box where the Registers are kept.

William Williams A M, *Rector*.

John Williams, *Curate*.

John Wm. Roberts &

Richard Hughes ( *Wardens* ).”

Anodd olrhain hanes cysegriad yr eglwys. Dywedir ei bod wedi ei chysegru i Sant(es) Anno. Ymddengys mai arferiad esgobion Normanaidd yng Nghymru, pan fyddai yn bosibl, oedd ail-gysegru yr eglwysi i seintiau a’u henwau yn y Calendr Rhufeinig. Hyn sy’n cyfrif fod cymaint o eglwysi wedi eu cysegru i’r Forwyn Fendigaid ac, i raddau llai, i Sant Pedr. Enw presennol yr eglwys yw Sant Pedr;<sup>2</sup> cysegrwyd ‘capel’ Llewelyn i Fair Forwyn.

1 h.y. *Imprimis* =Yn gyntaf.

2 Cymharer “Llain Gallt Pedr” - enw ar gae yn agos i’r eglwys; gweler hefyd *British Saints*, by Baring-Gould and Fisher, vol. iv, pp. 88-9.

Clodforwyd Sant Pedr o Rhosyr gan Lewis Daron:<sup>3</sup>

Am yr un sant mawr yw’n sôn

A mwg<sup>4</sup> aur am ei goron;

A ganwyf fi o<sup>5</sup> gwnaf fawl

Hyn a i<sup>6</sup> Bedr wybodawl

5 Pab a edwyn pawb ydwyd

Parth ar Nef porthor i’n wyd

Gorau un gair oi eni

Gwr o stad<sup>7</sup> dan Grist wyt ti

Y rhod wyr oedd y rhai drwg<sup>8</sup> /144/

10 Iso’n dal Iesu’n d’ olwg

Cyfa lan yn cyflawni

Ewyllys<sup>9</sup> Duw ellaist<sup>10</sup> di

Er gwadu’r Iesu rasol

Mynd a wneid<sup>11</sup> myn Duw yn ôl

15 Ofnad at fwriad a fu<sup>12</sup>

I’th hoedl a wnaeth ei wadu<sup>13</sup>

I garchar (difar y doeth)

Herodr hen yr aud trannoeth<sup>14</sup>

Pedwar i garchar a gaid<sup>15</sup>

20 Yn dy wely’n dy wyliaid<sup>16</sup>

Er cau drysau’r di-raswyr

Ni bu ry gall neb o’r gwyr

Duw a yrrodd am dorri<sup>17</sup>

Galon y twr (glan<sup>18</sup> yt ti)

3 Ceir copi o’r un cywydd yn Bleddyn MS. II. 279 - 280 a Cardiff MS. 7, p.760. Nodir lle mae amrywiaeth yn y darllen.

4 B. amug.

5 B. C. os.

6 B. Hyn i.

7 B. ystad.

8 Y rrodwyr draw ar rrai drwg.

9 B. ewyllus.

10 B. ellais.

11 C. wnaid.

12 B. fwriad fu.

13 Matt. xxvi. 75.

14 C. Herottyr hen i rawt tranoeth; B. Tra yno yr ait dranoeth.

15 Pedwar oi gyngor a gaid,

16 Actau xii. 4.

17 i dorri.

18 B. glyn.



25. CARRÉG-FAEN I FATHEW, ARCHDDIACON MON, YM MUR DEHEUOL Y GANGELL.

*Rhifau 15—25, drwy gamiatad Golygydd "Archaeologia Cambrensis."*

- 25 Ith<sup>19</sup> gyrchu (da fu dy fod)  
I<sup>20</sup> doi angel Duw yngod  
O bur eglur beryglau  
Aeth<sup>21</sup> arwydd hwn ith ryddhau  
E fu'r Iesu farw isod
- 30 Codai<sup>22</sup> i fyw gwedi 'i fod  
A rhoi'n ol ei farwolaeth  
Drws nef yn dy ras a wnaeth<sup>23</sup>  
Ag i'r un man gwr an<sup>24</sup> medd  
Troi agoriad trugaredd<sup>25</sup>
- 35 Penaeth a<sup>26</sup> llywodraeth llu  
Porthor trysor trwy Iesu  
A geisio pob neges pur  
Aed ar frys i Dref Rosur  
Mewn dy gor myn dy gweiriaw
- 40 Sy Rufain dros Sir Fon draw  
Pob iach yn pawb achwynai<sup>27</sup> /145/  
Pob afiach yn iach a wnai<sup>28</sup>  
Dyn gwyl ufudd<sup>29</sup> dan glefyd  
Fai'n y boen fwya'n y byd
- 45 Gwr iach fydd (gyrrwch foddion)  
Gweryd fry aur gar dy fron  
O del ith<sup>30</sup> gor dylwyth gwan  
Maent well-well yn mynd allan<sup>31</sup>  
Pab a rydd pawb ar weddi
- 50 Parawys yw d'eglwys di  
A'th gor ag aur a'th gwyr gwyh  
A'th gareglau<sup>32</sup> a'th groyw-glych  
Pob enaid y Pab union

19 B. a'th.

20 C. y.

21 B. A'th.

22 E. godai ?

23 "Duw yn y nef yn dy ras dy wnaeth."

24 B. a'n.

25 Gallu yr agoriadau. Gweler Matt. xvi. 19.

26 yn.

27 C. chenai; B. a chwenai.

28 B. iach wnai.

29 a fydd.

30 C. O doe i'th.

31 B. Mae'n d'well-well mynd allan.

32 C. coreglau; B. gwywglych.

55 Ir tu de erot ti don<sup>33</sup>  
 Gwr mwya nerth grymion wych  
 Or deuddeg er Duw oeddych  
 Grisol oedd y gwir<sup>34</sup> Iesu  
 Gwarant dy feddiant di fu  
 Porthor i'm Ior yma wyd  
 60 Pab a thad pob iaith ydwyd  
 Ffynnaist estynnaist ystad  
 Ffyniant i'r tenant tanad<sup>35</sup>  
 Tref Rosur tyrfa wresawg<sup>36</sup>  
 Teiroes<sup>37</sup> Duw rhoed trosti rhawg  
 65 Ni chaid<sup>38</sup> wr na chaterwen<sup>39</sup>  
 Na bai'r iach hwnt Niwbwrch wen  
 Lle caid bwrdeisiaid dwysir<sup>40</sup>  
 Llyna waed da'n llenwi tir  
 Morynion gwychion a gwyr  
 70 Mawredd gwragedd goreugwyr  
 pennaethiaid a deiliaid oedd  
 Pedr yn eu helpu ydoedd  
 Agoriadau a gredwn  
 Moes ein Tad am un Sant hwn  
 Dyro i'r lle dor ar lled  
 I nef Wen ini fyned.<sup>41</sup>

Lewis Daron a'i Cant.  
 (*Flor.* c. 1580-1600).

**/146/**Ceir y cyfeiriad hanesyddol cyntaf y gwyddom amdano at yr eglwys yn Niwbwrch ym *Mrut y Tywysogion*, o dan y flwyddyn 1156, lle y dywedir bod dynion o longau Harri II, brenin Lloegr, wedi glanio ym Môn ac anrheithio eglwys y Santes Fair ac eglwys Sant Pedr yn Rhosyr. Yn ôl y *Norwich Taxation* (1253) gwerth blynyddol eglwys Niwbwrch oedd 26 marc<sup>42</sup> (33s 4d. [£1-67p]), a rhoed y degwm

33 dônt.

34 B. gair.

35 B. danad.

36 Ll. 63-4, h.y. Rhoed Duw am byth dyrfa wresog dros dref Rhosyr.

37 B. teyrnas.

38 C. chait.

39 Catenwen=(1) derw gref, (2) dyn gyda cryfder y dderwen.

40 Môn ac Arfon mae'n debyg.

41 Ll. 75-76 Yn C. yn unig y ceir y ddwy linell hon.

42 "Ecc'a Rossuir ii m'r'a dimid', dec'a iis. viiid."

amdani (2s. 8d [14p]) am dair blynedd i Harri III i'w gynorthwyo i gario allan ei ryfelgyrch i wlad Canaan yn Rhyfeloedd y Groes.

Yn 1308 penodwyd Walter de Fulburne i fywoliaeth *capel* Rossevoir.<sup>43</sup> Wyth mlynedd yn ddiweddarach rhoddwyd bywoliaeth *eglwys* Rossur i Edmund Neve o Lundain, a ddaliai hefyd swydd offeiriad teulu yn esgobaeth Bangor.<sup>44</sup> Wedi ymddiswyddiad John de Haverburgh daeth Matthew Huse yn rheithor yn 1324,<sup>45</sup> a dilynwyd ef ymhen tair blynedd gan Richard de Bruggnorth.<sup>46</sup> Newidiodd Henry Alexandre y rheithoriaeth yn 1393 â William de Thornill o esgobaeth Coventry a Lichfield,<sup>47</sup> ond ymddiswyddodd hwnnw dair blynedd ar ôl hynny a phenodwyd David ap Jevan Cogh yn ei le.<sup>48</sup> Richard Thweng a dderbyniodd y fywoliaeth yn Chwefror 1416,<sup>49</sup> ond at ddiwedd yr un flwyddyn newidiodd ei fywoliaeth â John Bray, ficer eglwys Reygate yn esgobaeth Winchester.<sup>50</sup> Pedair blynedd yn ddiweddarach daeth William Crokkeston yn rheithor,<sup>51</sup> ac yna Edward Morys yn 1438.<sup>52</sup> Ymddengys bod eglwys blwyfol "St. Donwenna Virgin" (h.y. Llanddwyn) wedi ei huno ag eglwys Sant Pedr, "Rosfeire," yn 1465, gyda Hugh Tresgarn (neu Trevgarn) yn rheithor.<sup>53</sup>

O hyn hyd 1535, methwyd a chael dim o hanes yr eglwys yma. Yn *Valor Ecclesiasticus* Henry VIII (1535) ceir mai gwerth blynyddol yr eglwys oedd , 10, ac o'r swm hwn telid 6s. 8d. [34p] ar gyfer *provision of entertainment* i'r Esgob a 3s.4d. [17p], i'r Archddiacon, gan adael ,9. 10. 0. [£9-50p] degwm yr hwn oedd 19s [95p].<sup>54</sup> Yn yr un llyfr gwelir manylion y degwm:

"Tethe corne, tethe wolle and lambes, lactuall tethe, the tethe of hey flax and hempe, and other small tethes, personal tethe, liberalle tethe, gleb landes and howses and all other profects and emolimentes of the said Benefice, extendeth to the summe ix marce."<sup>55</sup>

43 *Cal. Pat. Rolls*, Ed. II, 1307-13, p.95

44 *Ibid.* 1313-17, p.451

45 *Ibid.* 1324-27, p.50.

46 *Cal. Pat. Rolls*, Ed. III, 1327-30, pp.195,228.

47 *Cal. Pat. Rolls*, Rich. II, 1391-96, p.307.

48 *Ibid.* 1396-99, pp.48, 482.

49 *Cal. Pat. Rolls*, Hen. V, 1413-16, p.395.

50 *Ibid.* 1416-22, p.47.

51 *Ibid.* p.280.

52 *Cal. Pat. Rolls*, Hen. VI, 1436-41, p.176

53 *Cal. Pat. Rolls*, Ed. IV, 1461-67, p.428.

54 *Cal. Pat. Rolls*, Ed. IV, vol. iv. p. 431.

55 *Ibid.* vol. vi. p.24.

/147/Yn y flwyddyn dan sylw, sef 1535, Galfridus Ruthyn oedd y rheithor,<sup>56</sup> ac yn Ebrill o'r flwyddyn ddilynol, rhoddwyd y ffrainc o benodi y rheithor nesaf i'r gwŷr hyn: Edward Griffith, William ap Robert ap Meredith, Edmund Lloyd ap Robert, John ap Robert ap Howell a David ap Robert ap Howell.<sup>57</sup> Eu dewis-ddyn hwy, mae'n debyg, oedd Hugh ap Robert, oedd hefyd yn rheithor Dolgellau ac ar ôl hynny yn esgob, a dilynwyd ef gan Robert ap Hugh ar 9 Mehefin 1554. Edmund Griffith, M.A., a gafodd y fywoliaeth ar 29 Mai 1596, ac ar ei ymddiswyddiad ef, daeth Robert White, M.A. (a D.D. ar ôl hynny) yn rheithor ym Mehefin 1610. Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach trowyd ef allan o'i swydd o dan Ddeddf 1650-53 gan Ddirprwywyr Gogledd Cymru.<sup>58</sup>

Yn Awst 1660 John Davies, M.A.<sup>59</sup> oedd y rheithor, ac ar ei farw penodwyd Hugh Griffith, M.A. ym Medi 1695, ac ar ei farwolaeth yntau derbyniwyd y fywoliaeth gan Robert Humphryes, M.A. gwr o Feirion. Pan ymddiswyddodd ef ym Mehefin 1705, Evan Jones, M.A. o Glynnog a ddaeth yn rheithor, ac a fu yma hyd ei farw. Llanwyd ei swydd ef gan William Williams, M.A., o'r Cwyrth, Llangeinwen, ym Mawrth, 1722, efe hefyd yn ficer Caernarfon.<sup>60</sup> O'r amser hyn hyd yn awr (1949), mae'r rhestr o'r rheithoriaid yn gyflawn ac i'w gweld ar ddiwedd y bennod hon.

Bu Owen Jones, B.A. yn rheithor yma am 30 mlynedd (1747-77). Ei gurad ef oedd Mr. Pugh a gollodd ei fywyd yr un adeg a'i wraig Anne Pugh, pan suddodd ysgraff Aber-menai yn 1785. Claddwyd y ddau ym meddrod curad a fu'n gwasanaethu yma o flaen Mr. Pugh. Gweler y garreg fedd â dalen bres arni, ar y dde i'r rhodfa, ac yn agos i borth y fynwent. Yn 1793 daeth Henry Rowlands yn offeiriad y plwyf. Gwerth y fywoliaeth yn ei amser ef oedd oddeutu ,230, ac o'r swm hwn, telid cyfran i gurad. Bu iddo ddau ohonynt, sef y brodyr John (1820-32) a Hugh Prichard (1833-38) o Ddinam, Llangaffo. Nid oedd tir-llan (*glebe*) na thŷ person yn y plwyf yr adeg hon. Trigai y rheithor rhyw chwech i saith milltir o Niwbwrch ym Mhlasgwyn, Llanidan.

Yn 1837 ymddiswyddodd Henry Rowlands; penododd yr Arglwydd Ganghellor Rice Robert Hughes o Dalgwynedd, Caernarfon i'w ddilyn, ef yn fab Syr William Hughes o Blâs Coch, Llanfair P.G. Bu ef farw yn 1850. Yna ymgeisiodd chwech am y fywoliaeth: D. L. Williams, curad Niwbwrch; R. Williams-Mason, curad Penrhoslligwy; Stephen Roose Hughes, curad Bodewryd; James Hughes, rheithor Llanrhuddlad Hugh Prichard, Dinam; /148/a William Wynne Williams, curad Llangeinwen. Cyn i Ardalydd Môn allu awgrymu enw (a chanddo ef yr oedd yr hawl), penododd yr Arglwydd Ganghellor Ër o'r Deheudir, sef David Jeffreys, i'r

56 *Ibid.* vol. vi. pp.17,24. Tebyg yw fod ef yr un â Galfridus oedd yn Ganon Llanelwy yn 1535, a'i ewyllys a'r dyddiad 1540 arni. - Thomas, *History of the Diocese of St. Asaph*, I, p. 364.

57 *Letters and Papers, Foreign and Domestic*, Hen VIII, vol. x. (1536), Grants in April, Hen. VIII, 1536, No.23.

58 *Cymdeithas Llen Cymru*, An Act for the Propagation of the Gospel in Wales, pp.18,20.

59 Ei wraig oedd Elizabeth, merch William Brwynog o Lanfflewin - *Pedigrees*, gan J. E. Griffith, p.2.

60 Cwrtmawr MS. 18, p.35.

swydd; "a zealous active clergyman, a perfect Welshman, soundly orthodox in his principles, &c. ... likely to become a most valuable Pastor in Newborough."<sup>61</sup>

"Yr oedd y Parch. D. Jeffreys yn wr caredig a chymwynasgar, a bu am lawer o flynyddoedd yn gadeirydd Bwrdd Gwarcheidwaid Caernarfon. Ond trigai yn Nhal-gwynedd, yn agos i bedair milltir o'r plwyf, ac unwaith yn unig yr â'i Niwbwrch mewn wythnos, sef ar fore Sul i gynnal yr unig wasanaeth yn yr eglwys."<sup>62</sup> Yn ystod Rhyfel y Crimea (1854-56) âi trigolion Niwbwrch, yn eglwyswyr ac ymneilltuwyr, i'r eglwys am un-ar-ddeg fore Sul i glywed Mr. Jeffreys y rheithor yn rhoddi hanes digwyddiadau'r wythnos ar faes y gwaed.

Bu cyfnewidiad sydyn yn hanes yr eglwys yno wedi iddo farw, a phenodi'r Parch. Thomas Meredith i'r fywoliaeth yn 1866. "Ganwyd ef yn Ffosybleiddiaid, yn agos i Ystrad Meurig, sir Aberteifi, yn 1821. Bu ei dad yn flaenor gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Swydd-ffynnon, a bu yntau yn flaenor y gân yn yr un capel. Yr oedd yn agos i ddeugain oed pan ymgymrodd â gwaith y weinidogaeth. Bu am beth amser yn ysgol enwog Ystrad Meurig, a chas lawer o gefnogaeth i fynd ymlaen gan y Canon Williams, Llanelli. O Ystrad Meurig aeth i Goleg y Frenhines, Birmingham. Fe'i hurddwyd yn ddiakon yn 1861, ac yn offeiriad yn 1862, gan yr esgob Campbell. Yn 1861 fe'i penodwyd i guradiaeth Amlwch, o dan y Parch. J. Richards. Bu yma hyd 1866, pryd y penodwyd ef i reithoriaeth Niwbwrch. Yr oedd yr eglwys blwyfol yn Niwbwrch wedi ei hesgeuluso'n hollol ar hyd y blynyddoedd, ond bu ei ddyfodiad ef i'r drefflan yn fywyd o feirw iddi. Erbyn 1868 yr oedd pethau wedi eu gwednewid, a chaed prawf amlwg beth a allai offeiriad gweithgar ei wneud. Adeiladodd gapel anwes yng nghanol y pentref yn 1870, ac yn fuan wedi hynny bersondy hardd iawn, a phan orffenwyd y ddau adeilad nid oedd geiniog o ddyled arnynt. Pan symudodd o Niwbwrch i Landdeusant yn 1882, fe'i anrhegwyd â llestri arian hardd a drudfawr. Ni bu mor llwyddianus yn ei faes newydd, oblegid erbyn hynny yr oedd yn hynafawr, a'r gwaith mawr a wnaeth yn Niwbwrch wedi dechreu dweud arno. Yn 1896 bu farw ei briod, gwraig hynod o rinweddol, merch Bodiorwerth, Niwbwrch. Ergyd drom iddo oedd hon. Yn 1901 bu yntau farw'n fab pedwarugain-mlwydd, yn Llanddeusant, ac fe'i claddwyd yn Niwbwrch, y drefflan gafodd oreu'i oes."<sup>63</sup>

Dilynwyd ef yn Niwbwrch gan un o oreuon yr Eglwys yng Ngogledd Cymru, sef y Parch. David Jones, brodor o sir Aberteifi. Ymneilltuwr ym more'i oes, ydoedd yntau, fel y Parch. Thomas Meredith./149/Yr oedd ef yn llenor medrus ac yn awdur o fri, ac yn un o bregethwyr gorau'r Eglwys Sefydledig yn y Gogledd. Heblaw hynny, yr oedd yn Ër diamheuol dduwiol a'i ymarweddiad yn ddiargyhoedd. Merch Bod-Iorwerth, Niwbwrch, ydoedd ei wraig yntau./150/

61 U.C.N.W. Plas Newydd Letters, No. 1861.

62 *Hanes Mon*, gan E.A.W., tud. 198.

63 *Enwogion Mon*, gan R. Hughes, (Dolgellau: 1915), tt. 112-3.

## OFFEIRIAID (1722-1949) A WARDENIAID (1722-1825) EGLWYS NIWBWRCH.

Blwyddyn	Offeiriad	Wardeniaid yr Eglwys	Dyddiad cyfarfod. Llys Bangor
1722	William Williams	William Williams	Johanne Thomas
1742	John Williams ( <i>curad</i> )	Richard Hughes	John W. Roberts
1744	Thomas Williams ( <i>gweinidog</i> ) Evan Owen ( <i>curad</i> )	Thomas Lloyd	Evan Wm. Morgan
1745	Evan Owen ( <i>curad</i> )	Evan Williams	Tho. Lloyd
1746	Edward Jones		
1747	Owen Jones ( <i>Rector</i> )	John Jones	Anthony Hughes
1748	“	“	“
1749	“	“	“
1750	“	Jno Hughes	Robt. Wms.
1751	“	“	Wm. Pritchard
1752	“	“	“
1753	“	Ow. Jones	Evan Prichard
1754	“	“	“
1755	“	Wm. Roberts	Anthony Hughes
1756	“	Evan Mark	Hugh Williams
1757	“	“	“
1758	“	John Rowland	John David
1759	“	“	“
1760	“	Owen Evans	Owen Thomas
1761	“	Ow. Lewis	Wm. Thomas
1762	“	Evan Williamis	Wm. Rowland
1763	“	Evan Prichard	Owen Jones
151/1764	“	John Jones	Richd. Edward
1765	“	“	“
1766	“	John Hughes	“
1767	“	“	Griffith Rowland
1768	“	Jn. Rowland	John Prichard
1769	“	John Hughes	Ths. Roberts
		Car[regl Cib[w[m]	ffyn[on] w[en]
1770	“	Griffith Morris	Owen Evans
1771	“	Ths. Jones	Hugh Wms
		Brynsink	Rhedyn coch
1772	“	Jno. Jones Edmd	Richard isaac
1773	“	Evan Thomas	John John David
1774	“	Ths Wm	Richd. Jones
1775	Owen Jones ( <i>Minister</i> )	Wm Thomas	Moses Williams
1776	Owen Jones ( <i>Curate</i> )	Hugh Williams	Thomas Jones
1777	O.Jones ( <i>Minister</i> )	“	“
1778	D. Davies S.T.P ( <i>Rector</i> )		

1779	Lewis Pugh ( <i>M</i> )	Robt. Hughes	William Humphrey	July 14
1780				
1781	“ ( <i>M</i> )	“	William Davies	June 14
1782	“ ( <i>C</i> )	John David	Griffith Humphrey	June 11 (at Llangejni)
1783	“	John Abraham	Owen Owens	July 10 (at Llangejni)
1784				Sept.7
1785	“ ( <i>C</i> )	Owen Evans	Thos. Evans	July 4
	Owen Owens ( <i>C</i> )			
1786				
1787	Owen Owens ( <i>C</i> )	Hugh Williams	Thomas Jones	July 4 (at Llangejni)
/152/				
1788	David Williams ( <i>C</i> )	William Thomas	Hugh Williams	May 26 (at Llangejni)
1789	Wm. Williams ( <i>C</i> )	Owen Hughes	William Humphrey	June 15 ( ” )
1790	Hugh Davies ( <i>M</i> )	William Humphrey	Griffith Morris	Apr. 30 ( ” )
1791	“	Owen Owens	Robert Jones	May 24 ( ” )
1792	Henry Rowlands ( <i>R</i> )			May 7 ( ” )
1793	“	Jno Abraham	Tho.Jones	May 13 ( ” )
1794	“			May 21 ( ” )
1795	“	Richard Edward	John Abraham;	May 18 ( ” )
1796	“	Owen Evan	“	Apr. 11 ( ” )
1797	“	“	Thomas Jones	May 12 ( ” )
1798	“			
1799	“			
1800	“			June 6
1801	“	John Jones of Tynrallt	William Thomas Llwynysgaw	May 7 ( ” )
1802	“	Owen Thomas	Hugh Williams	
		Carregreithin	Plas Pudawia	May 7
1803	“	Owen Williams	William Thomas	May 19
1804	“			
1805	“			
1806	“			
1807	“			
1808	“			
/153/ 1809	“	Hugh Evans	Robert Jones	
1810	“			
1811	“			
1812	“			
1813	“			
1814	“			
1815	“	John Jones	Thomas Roberts	
1816	“	Sion Jones		
1817	“			

1818	“		
1819	“		
1820	“		
1821	“	Hugh Williams	Owen Evans
1822	“		
1823	“		
1824	“		
1825	“	Evan Roberts	Thomas Jones
		Erw Goch	Cefn buchan
1826-37	“		
1837		Rice Robert Hughes	
1851		David Jeffreys	
1867		Thomas Meredith	
1882		David Jones	
1888		Richard Evans	
1898		H. W. Jenkins	
1920		J. Hughes Jones	
1924		W. J. Williams	
1942		J. Iorwerth Parry	/154/